CRONFA YMATEB I YMCHWIL

CANLLAW AR GYFER GWNEUD CAIS

National Cardiovascular Research Network

Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd

TROSOLWG

Mae'r **Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Cardiofasgwlaidd (NCRN)** yn gymuned ryngddisgyblaethol sy'n cysylltu academyddion, clinigwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, diwydiant ac elusennau i gyflymu ymchwil cardiofasgwlaidd o ansawdd uchel. Ein cenhadaeth yw cryfhau ymchwil cardiofasgwlaidd ledled Cymru drwy adeiladu partneriaethau a gyrru ymchwil hanfodol i ddatblygu atal, diagnosis, a thrin cyflyrau y galon a chyflyrau cylchrediad. Wrth wraidd yr NCRN mae ymgysylltu cynhwysol, gan ymgorffori profiadau bywyd go iawn mewn mentrau ymchwil arloesol a rhannu gwybodaeth.

Mae'r Gronfa Ymateb i Ymchwil (RRF) yn gynllun cyllido grantiau bach hyblyg, sydd wedi'i gynllunio i ysgogi datblygiad syniadau ymchwil arloesol a chryfhau ceisiadau am ddyfarniadau cyllid mwy megis grantiau ar gyfer prosiectau, rhaglenni neu gymrodoriaethau. Rhaid i brosiectau gyd-fynd ag un neu fwy o themâu strategol NCRN:

Mynd i'r afael ag Arythmia a Chlefyd Myocardiaidd	**Heneiddio Fasgwlaidd a Chanlyniadau Clinigol**
Data Cardiofasgwlaidd a Dadansoddeg Uwch	

Mae'r RRF yn cefnogi gweithgareddau strategol tymor byr sy'n helpu ymchwilwyr i ddatblygu cynigion cystadleuol megis:

- Prawf o gysyniad gan gynnwys astudiaethau rhagarweiniol i gynhyrchu neu orffen data peilot.
- Teithio i adeiladu cydweithrediadau aml-ryngddisgyblaethol a mireinio syniadau ymchwil.
- Prynu offer bach sy'n galluogi sy'n hanfodol ar gyfer gwaith rhagarweiniol.

Bwriadir y gronfa hyblyg hon ar gyfer cynhyrchu **syniadau ymchwil newydd a phwysig** yn unig ac **ni fydd yn cefnogi astudiaethau tymor hwy na phrosiectau parhaus**.

CYMHWYSEDD?

- Croesewir ceisiadau gan ymchwilwyr sy'n cael eu cyflogi mewn Sefydliadau Addysg Uwch (AU) neu staff gweithredol ymchwil o fewn sefydliadau GIG neu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

- Yn agored i ymgeiswyr ymchwil weithredol ar unrhyw gyfnod gyrfa, gydag anogaeth gref i ymchwilwyr cynnar yn eu gyrfa.

- Byddai disgwyl i geisiadau fod yn gydweithredol e.e. gyda phartner y GIG neu dystiolaethu cyfeiriad teithio sy'n cyd-fynd ag ymchwil er budd cleifion a/neu i'r cyhoedd.

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn aelod o'r NCRN — dilynwch y ddolen hon i gofrestru.

- Er nad yw cyllid cyfatebol yn hanfodol, anogir ymgeiswyr i archwilio cyfleoedd cyd-ariannu (e.e. drwy gynlluniau ariannu sefydliadol mewnol lle bo ar gael).

Disgwyliadau

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus wario unrhyw arian o fewn 6 mis i dderbyn y dyfarniad a chyflwyno cais cyllido cystadleuol i sefydliad ariannu mawr o fewn 6-12 mis ar ôl cwblhau'r gweithgareddau rhagarweiniol.

Am ymholiadau sy'n gysylltiedig â chymhwysedd neu addasrwydd, cysylltwch â admin@NCRN.uk

BETH FYDD Y GRONFA HON YN TALU AMDANO?

Costau Cymwys	Ni all y gronfa hon gael ei defnyddio i dalu am
✓Teithio a Chynhaliaeth	× Cyflogau Staff Parhaol
✓Nwyddau traul a deunyddiau	× Gorbenion, costau ystadau ac anuniongyrchol (FEC)
✓Amser staff — e.e. cynorthwyydd ymchwil tymor byr, technegydd, cymorth dadansoddol, cymorth gweinyddol	× Presenoldeb mewn cynhadledd
✓Offer Bach — rhaid bod yn benodol i'r prosiect	× Ffioedd dysgu neu gostau hyfforddi
✓Costau casglu a dadansoddi data	× Gliniaduron ac offer generig arall a ddarperir fel arfer gan sefydliadau cyflogi
✓Costau ymgynghori	× Costau cyhoeddi
✓Costau ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd	× SAIL a chostau mynediad data eraill (gweler ein Cronfa Mynediad Data Ymchwil Diogel)

Swm y Dyfarniad: Ni fydd uchafswm y dyfarniad ar gyfer prosiect yn fwy na **£7,500** gyda'r holl gostau ymgeisio wedi'u cyfiawnhau'n llawn er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian.
Rhagwelir na fydd prosiectau sy'n canolbwyntio'n llwyr ar feithrin cydweithio a rhwydweithio yn costio **mwy na £3,000**

Hyd y Dyfarniad: Hyd at 6 mis

MEINI PRAWF ASESU

Caiff ceisiadau eu hadolygu gan Banel Cyllido Grantiau NCRN, sy'n cynnwys aelodau o Dîm Arweinyddiaeth NCRN, Prifysgolion, a phartneriaid y GIG, a phobl sydd â phrofiad byw, gan gynnwys cleifion ac aelodau'r cyhoedd. Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y meini prawf isod:

- ✓ **Perthnasedd ac addasrwydd**
  - A yw'r prosiect yn cefnogi nodau'r NCRN a'r fenter RRF yn glir?
  - A yw'r ymchwil arfaethedig yn wreiddiol ac yn bwysig?
  - A yw'r cynnig yn nodi'n glir ymchwil er budd cleifion a'r cyhoedd?
- ✓ **Dichonoldeb**
  - A yw'r cynllun yn realistig o fewn yr amserlen (hyd at 6 mis) a'r gyllideb (hyd at £7,500)?
- ✓ **Potensial ar gyfer Effaith**
  - A wnaiff y gweithgaredd gryfhau cais cyllid sylweddol yn y dyfodol mewn ymchwil cardiofasgwlaidd?
  - A yw'r allbynnau wedi'u diffinio'n glir?
  - A yw'r cynlluniau ar gyfer sicrhau cyllid yn y dyfodol yn realistig ac wedi'u trefnu'n dda?
- ✓ **Potensial Cydweithredol**
  - A yw'r ymgeisydd wedi ymgysylltu â'r NCRN i drafod y cais?
  - Caiff ceisiadau sy'n cynnwys **partneriaethau traws-sector** (e.e., prifysgolion, GIG, elusennau, diwydiant) eu hannog yn gryf.
- ✓ **Gwerth am arian**
  - A yw'r costau'n cael eu cyfiawnhau'n llawn ac yn gysylltiedig yn glir â'r gweithgareddau a'r canlyniadau a ddisgrifir?

SUT GALLA' I WNEUD CAIS?

Cyflwynwch eich cais wedi'i lofnodi i dîm Gweithrediadau NCRN drwy e-bost: **admin@ncrn.uk**

Ni fydd ceisiadau hwyr na'r rhai sy'n hirach na chyfanswm y cyfrif geiriau a nodwyd yn cael eu hystyried.

Am gymorth sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio, cysylltwch â: **admin@ncrn.uk**